Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry
# Saltney Ferry Road
# Saltney Ferry
# Caer
# Sir y Fflint
# CH4 0BL

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/03/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry yn Sir y Fflint ac mae o fewn pedair milltir i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn dod o ardal gyfagos Saltney Ferry.

Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol wedi bod yn gostwng er 2008.  Mae 128 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd.  Mae'r disgyblion wedi'u trefnu yn bedwar dosbarth oedran cymysg ar gyfer y rhan fwyaf o wersi, ond addysgir Saesneg a mathemateg iddynt mewn grwpiau yn ôl gallu.  Mae'r ysgol yn darparu cyfleusterau meithrin ar gyfer 13 o ddisgyblion tair i bedair oed.  Mae disgyblion yn mynychu'r meithrin yn rhan-amser o'r mis Medi ar ôl eu trydydd pen-blwydd.  Mae'r ysgol yn cynnal cylch chwarae ar ei safle.

Mae gan dri deg dau y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol yn 2013.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith.  Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg gartref.  Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.  Mae gan ryw 23% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.  Ar hyn o bryd, mae ychydig iawn o ddisgyblion ar y gofrestr o gymuned teithwyr ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym Mawrth 2008.  Dechreuodd y pennaeth presennol ar ei swydd yn Ionawr 2007.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw  £3,971 fesul disgybl.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir y Fflint yw £15,097 a'r isafswm yw £2,912.  Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry yn safle 26 allan o'r 72 ysgol gynradd yn Sir y Fflint o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- er bod safonau wedi gwella ychydig yn 2012-2013, nid yw cyflawniad disgyblion yn yr asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi cymharu'n dda â chyflawniad ysgolion tebyg neu gyda meincnodau lleol a chenedlaethol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn yn arbennig o wir o ran Saesneg, sy'n parhau i fod yn y 50% is o gymharu â safonau cymharol mewn ysgolion tebyg;
- nid yw disgyblion ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n effeithiol nac yn ddigon cyflym ar gyflawniadau a wnaed yn y Cyfnod Sylfaen;
- nid yw llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau ddigon uchel mewn ysgrifennu am nad ydynt yn ysgrifennu digon mewn gwahanol arddulliau a ffurfiau estynedig mewn pynciau ar draws y cwricwlwm;
- nid yw llawer o ddisgyblion yn deall pa mor dda y maent yn cyflawni na sut i wella'u gwaith;
- nid yw medrau dysgu annibynnol, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau meddwl disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol;
- mae defnydd disgyblion o Gymraeg achlysurol a'u dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru yn gyfyngedig, a bernir bod safonau mewn Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ddigonol yn unig;
- mae medrau canolbwyntio a chymdeithasol llawer o ddisgyblion yn wael, sy'n rhwystro eu dysgu; ac
- mae ansawdd yr addysgu a'r asesu yn anghyson ar draws yr ysgol.

Fodd bynnag:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dysgu;
- mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon ac yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd;
- mae gan bron bob disgybl agweddau cadarnhaol at gadw'n iach; ac
- mae'r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw'r ysgol wedi gwneud llawer o gynnydd wrth roi'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolygiad ym Mawrth 2008 ar waith;
- nid oes dealltwriaeth ar y cyd ymhlith y staff a'r corff llywodraethol o sut mae'r ysgol yn datblygu mewn perthynas â'r weledigaeth ar gyfer yr ysgol;

- ni chaiff cynlluniau strategol a chynlluniau gwella eu llywio ddigon gan dystiolaeth uniongyrchol ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar godi safonau cyflawniad disgyblion;
- nid yw rolau a chyfrifoldebau staff wedi'u diffinio'n dda ac mae hyn yn arwain at ddiffyg gweithredu prydlon i wella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau;
- mae systemau rheoli perfformiad a systemau sicrhau ansawdd, gan gynnwys defnyddio dadansoddi data yn effeithiol, yn annigonol, sy'n arwain at hunanarfarnu gwael a dealltwriaeth gyfyngedig o feysydd allweddol i'w gwella;
- nid yw datblygiad proffesiynol wedi'i gysylltu'n effeithiol â chynlluniau gwella; ac
- nid yw rôl y corff llywodraethol wedi'i diffinio'n dda ac nid yw ei rhan ym mherfformiad yr ysgol wedi'i datblygu ddigon.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau disgyblion mewn Saesneg a mathemateg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella medrau cyfathrebu a chymdeithasol disgyblion i gefnogi eu dysgu yn effeithiol

A3 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddefnyddio eu medrau ysgrifennu, rhifedd a TGCh ym mhob pwnc

A4 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu ar draws yr ysgol

A5 Gwella'r defnydd o ddeilliannau asesu i fodloni anghenion disgyblion yn briodol

A6 Diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer pob aelod o staff a'r llywodraethwyr yn glir i sicrhau bod yr ysgol yn cyflwyno cynllun gwella'r ysgol yn effeithiol

A7 Rhoi gweithdrefnau hunanarfarnu effeithiol ar waith yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol fel bod gan arweinwyr wybodaeth sicr am y safonau yn yr ysgol a'r hyn y mae angen ei wella

A8 Rhoi gweithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ar waith i sicrhau bod staff yn gallu manteisio ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Er bod lefelau cyflawniad disgyblion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol wedi codi yn y flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd yn parhau i fod yn rhy araf ar gyfer llawer o ddisgyblion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae safonau mewn llythrennedd yn gwella. Mae llawer o ddisgyblion ar draws y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau siarad a gwrando. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn darllen yn uchel yn dda. Mae darllenwyr sy'n fwy rhugl yn darllen gyda goslef dda. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'r testun. Fodd bynnag, wrth ysgrifennu, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio'r strategaethau sillafu y maent yn eu dysgu i sillafu geiriau newydd yn gywir, ond yn dibynnu'n ormodol ar yr athro. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn adnabod strwythur stori syml a gallant ail-ddweud y stori'n llwyddiannus gan newid y cymeriadau a'r lleoliadau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n effeithiol ar y cynnydd a wnânt mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen. Nid yw disgyblion ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n helaeth nac yn ddigon da mewn Saesneg nac ar draws y cwricwlwm. Mae hyn oherwydd gorddefnyddio taflenni gwaith, sy'n rhwystro datblygiad eu medrau. Nid yw llawer o ddisgyblion yn sillafu geiriau allweddol yn gywir. Nid yw llawer o ddisgyblion ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn darllen mor rhugl ag y dylent. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwella'u medrau darllen. Gyda chymorth, gallant ddadansoddi dadl wedi'i chyflwyno mewn ffurf ysgrifenedig yn dda. Mae disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dysgu ysgrifennu mewn arddulliau gwahanol, ond nid ydynt yn ysgrifennu'n helaeth mewn pynciau heblaw Saesneg. O ganlyniad i'r cynnydd cyfyngedig a wneir gan ddisgyblion yn gyffredinol yng nghyfnod allweddol 2, mae Saesneg yn parhau i fod yn faes pwysig i'w wella.

Mae disgyblion yn dechrau mynd i'r afael ag ystod gyfyngedig o broblemau rhifiadol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth gynyddol o syniadau rhifiadol a mathemategol. Ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae cynnydd disgyblion mewn mathemateg yn rhy araf am nad yw gormod o ddisgyblion yn cwblhau eu gwaith. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae safonau disgyblion mewn mathemateg yn gwella, ac erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol mewn mathemateg.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran siarad a deall Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, ond yng nghyfnod allweddol 2, digonol yn unig yw safonau disgyblion. Ychydig iawn o ddisgyblion ar draws yr ysgol sy'n defnyddio Cymraeg achlysurol a dealltwriaeth gyfyngedig iawn yn unig sydd gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o dreftadaeth a diwylliant Cymru.

Ar draws yr ysgol, nid yw medrau disgyblion mewn gwrando, TGCh, meddwl a dysgu annibynnol wedi'u datblygu ddigon. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i ddysgu'n effeithiol.

Cododd cyflawniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013. Gosododd deilliannau disgyblion yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. Fe wnaeth cyflawniadau disgyblion ar y lefel uwch osod yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. O gymharu â lefelau perfformiad ysgolion eraill yn ei theulu, roedd cyflawniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn cyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer y teulu, neu roeddent yn uwch. Roedd cyrhaeddiad ar y lefel uwch ym mhob un o'r tri maes dysgu asesedig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu.

Mae cyflawniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefelau disgwyliedig ac uwch wedi dangos tuedd amrywiol dros y pum mlynedd diwethaf ac mae deilliannau islaw'r holl gymaryddion ar y cyfan. Yn 2013, o gymharu ag ysgolion tebyg, nid yw cyflawniad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg yn dangos llawer o welliant ers yr arolygiad diwethaf ac mae'n parhau i fod yn y 50% is. Mae cyflawniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch. Mae cyflawniadau disgyblion ar y lefel uwch yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu ag ysgolion tebyg.

At ei gilydd, mae disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n well na'r disgyblion hynny sy'n cael prydau ysgol am ddim.

**Lles: Anfoddhaol**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac mae bron pob disgybl yn cytuno bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae gan bron bob disgybl agweddau cadarnhaol at gadw'n iach a diogel ac maent yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dysgu. Fodd bynnag, nid yw lefelau canolbwyntio llawer o ddisgyblion yn dda. Mae hyn yn cyfyngu ar yr amser y maent yn canolbwyntio'n llawn ar weithgareddau dysgu a'u cynnydd o ganlyniad. Nid yw llawer o ddisgyblion yn meddu ar y medrau sydd eu hangen i wella'u dysgu eu hunain neu i ddatrys problemau. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau cymdeithasol gwael mewn dosbarthiadau ac ar iard yr ysgol. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i ddysgu a gweithio gyda disgyblion eraill yn effeithiol.

Nid yw medrau disgyblion mewn gwneud penderfyniadau a chymryd cyfrifoldeb wedi'u datblygu ddigon gan fod y cyfleoedd iddynt wneud hynny yn gyfyngedig. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu clwb brecwast yr ysgol ac maent yn elwa ar gymdeithasu gyda disgyblion eraill ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Prin yw'r disgyblion sy'n manteisio'n rheolaidd ar y clybiau allgyrsiol a gynigir gan yr ysgol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn dda. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch dros y tair blynedd diwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Ni fu unrhyw waharddiadau yn y flwyddyn ddiwethaf.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn darparu ystod addas o brofiadau dysgu sy'n bodloni'r gofynion statudol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi grwpio disgyblion yn ôl gallu ar gyfer gwersi Saesneg a mathemateg. Mae'r trefniant hwn yn dechrau cael effaith ar wella safonau disgyblion yn y pynciau hyn. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae cynllunio ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynllunio trosfwaol yn cynnwys cyfleoedd priodol, ond nid yw athrawon yn cyflwyno'r cyfleoedd hyn yn gyson yn eu gwersi.

Mae cynllunio ysgol gyfan i ddatblygu medrau dysgu annibynnol, meddwl, cyfathrebu a chymdeithasol disgyblion yn gyfyngedig ac ychydig o gynllunio cyson a geir i ddatblygu medrau disgyblion yn y meysydd hyn.

Mae cynllunio priodol ar waith i gyflwyno Cymraeg ail iaith, ond nid oes unrhyw gynllunio effeithiol ar waith i ddatblygu Cymraeg achlysurol ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnal Eisteddfod ar Ddydd Gŵyl Dewi bob blwyddyn, ond nid yw cynllunio cyffredinol ar gyfer cynnwys diwylliant a threftadaeth Cymru ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu ddigon.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion mewn TGCh yn well yn y Cyfnod Sylfaen nag yng nghyfnod allweddol 2. Nid yw cynllunio ar gyfer cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n effeithiol ar y medrau y mae disgyblion yn eu datblygu yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae ystod dda o ymweliadau addysgol â lleoliadau perthnasol ac ymweliadau gan glerigwyr lleol, busnesau lleol a'r heddlu yn cyfoethogi profiadau disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig ystod gyfyngedig o glybiau ar ôl yr ysgol, gan gynnwys pêl-droed, cerddoriaeth a garddio.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang o fewn y cwricwlwm, ond ychydig iawn o gyfle a gaiff disgyblion i roi eu dysgu ar waith y tu allan i wersi, trwy bwyllgor eco, er enghraifft.

**Addysgu: Anfoddhaol**

Mae addysgu ac asesu yn anghyson ar draws yr ysgol.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda, ac maent yn ei defnyddio'n dda.

Mewn tua hanner y dosbarthiadau, mae'r addysgu'n dda. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau sy'n cynnwys lefel briodol o her i fodloni anghenion dysgu disgyblion. Maent yn defnyddio technegau holi yn effeithiol i helpu disgyblion i ddeall eu gwaith. Maent yn datblygu medrau meddwl a dysgu annibynnol disgyblion yn dda.

Pan nad yw'r addysgu yn llwyddo cystal, mae'r gwersi'n symud yn rhy araf. Nid yw disgyblion bob amser yn glir ynghylch pryd i symud ymlaen i weithgaredd newydd. Nid yw athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer ystod eang anghenion dysgu disgyblion ac nid yw gweithgareddau dysgu yn herio disgyblion ddigon. Nid yw athrawon yn ei gwneud yn ddigon eglur i ddisgyblion beth yw medrau cyfathrebu a dysgu da. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu.

Nid yw llawer o athrawon yn cymhwyso'r polisi marcio cytunedig yn drylwyr. O ganlyniad, mewn llawer o achosion, nid yw adborth ysgrifenedig yn dangos i ddisgyblion yn ddigon clir pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Nid yw'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd da yn rheolaidd i ddisgyblion arfarnu eu dysgu eu hunain nac yn gosod targedau priodol i ddisgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, nid yw athrawon yn egluro'r medrau sydd eu hangen ar ddisgyblion er mwyn arfarnu eu gwaith yn llwyddiannus.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno system electronig i olrhain cynnydd disgyblion. Hyd yn hyn, nid yw athrawon yn defnyddio'r system yn effeithiol. Mae hyn yn golygu nad yw athrawon bob amser yn gweddu gweithgareddau dysgu yn ddigon agos i anghenion dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau ar gyfer rhieni sy'n bodloni gofynion statudol.

Er bod addysgu ac asesu wedi cael eu nodi yn faes pwysig i'w wella yn yr arolygiad diwethaf, ychydig iawn o gynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud i wella'r maes hwn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu'n ysbrydol ac yn foesol trwy wasanaethau rheolaidd, sy'n rhoi amser i ddisgyblion fyfyrio ar ystod o faterion. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r ysgol yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau gwneud penderfyniadau, ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon systematig ar helpu disgyblion i ddatblygu medrau cymdeithasol a chyfathrebu da chwaith. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut i ymddwyn yn briodol mewn sefyllfaoedd penodol gyda'u cyfoedion ac oedolion.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n rhoi pwyslais priodol ar annog disgyblion i fabwysiadu arferion hylendid da fel gofalu am eu dannedd. Mae'r ysgol yn darparu gofal a chymorth da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig. Mae prosesau effeithiol ar waith ar gyfer nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn cysylltu'n dda ag asiantaethau arbenigol i roi cymorth addas ar waith i fodloni anghenion disgyblion unigol ac mae'n olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus. Mae cynorthwywyr addysgu yn cyflwyno nifer o raglenni ymyrraeth ar gyfer disgyblion unigol yn dda. Caiff y rhaglenni effaith gadarnhaol ar wella hunan-barch disgyblion a'u hymglymiad mewn dysgu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ond mae rhai meysydd yn destun pryder. Mae'r tîm arolygu wedi tynnu sylw atynt gyda'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr.

**Yr amgylchedd dysgu: Anfoddhaol**

At ei gilydd, mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i gefndiroedd gwahanol y disgyblion ac mae'n hyrwyddo ethos cynhwysol. Mae'n gymuned ofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'n hapus. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi adolygu'r polisi cyfle cyfartal yn ddigon rheolaidd i sicrhau ei bod yn bodloni'r proffil disgyblion sy'n newid a threfniadaeth yr ysgol yn effeithiol. O ganlyniad, nid yw rhai disgyblion yn gallu manteisio'n ddigon rheolaidd ar staff addysgu cymwys ar gyfer pynciau craidd.

Mae adeiladau'r ysgol yn lân ac yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan. Maent yn darparu amgylchedd dysgu priodol ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau bod disgyblion ag anableddau yn cael yr un cyfle i fanteisio ar yr adeiladau a'r adnoddau. Mae digon o doiledau i ddisgyblion a staff, ond mae cyflwr gwael y toiledau yn lleihau lefelau hylendid. Mae gan yr ysgol dir helaeth y mae'n ei gynnal yn dda. Mae mannau addas i ddisgyblion ddysgu a chwarae yn yr awyr agored. Mae arddangosiadau ar draws yr ysgol yn cefnogi ac yn dathlu dysgu a chyflawniadau disgyblion yn briodol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol weledigaeth a chenhadaeth benodedig, ond nid oes dealltwriaeth ar y cyd ymhlith staff a llywodraethwyr o'r modd y mae'r ysgol yn datblygu mewn perthynas â'r weledigaeth.

Mae rolau arweinyddiaeth wedi'u dosbarthu'n briodol ar draws y staff. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o staff yn ymwybodol o gynnwys eu disgrifiad swydd na'r meysydd i'w gwella y maent yn gyfrifol amdanynt. O ganlyniad, nid ydynt yn cyflawni eu rolau yn effeithiol ac nid yw'r ysgol yn gwneud cynnydd digon cyflym tuag at ei hamcanion strategol. Mae staff addysgu yn cyfarfod yn rheolaidd, ond nid yw cyfarfodydd yn arwain at gamau clir sy'n cael eu deall a'u rhoi ar waith gan bob aelod o staff.

Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio data yn fwy cyson i nodi camau ar gyfer gwella ac olrhain cynnydd a llwyddiant prosiectau. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r staff addysgu wedi cael digon o hyfforddiant i ddefnyddio'r system olrhain data a roddwyd ar waith yn ddiweddar yn effeithiol. Mae hyn yn cyfyngu ar yr effaith ar godi safonau cyflawniad disgyblion.

Nid yw uwch arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau wrth staff yn ddigon clir. Nid oes ganddynt systemau na gweithdrefnau priodol i reoli perfformiad staff. Mae hyn yn golygu nad yw staff yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ac nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen ei wella.

Etholwyd cadeirydd ac is-gadeirydd newydd y llywodraethwyr yn Nhachwedd 2013 gan y llywodraethwyr. Hyd yn hyn, nid yw cadeirydd ac is-gadeirydd y llywodraethwyr wedi gallu ymgymryd â hyfforddiant i lywio'u rolau yn llawn i arwain y corff llywodraethol fel ffrindiau beirniadol i'r ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i herio'r ysgol i wella'i pherfformiad.

Nid yw rôl y corff llywodraethol wedi'i diffinio'n dda ac nid yw ei ran mewn dadansoddi ac arfarnu perfformiad yr ysgol wedi'i datblygu ddigon. Nid yw cofnodion diweddar y corff llywodraethol yn effeithiol o ran helpu'r llywodraethwyr i olrhain cynnydd yr ysgol yn unol ag amcanion a nodwyd.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd anfoddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r adroddiad arolygu blaenorol.

Mae arfarniad arweinwyr o berfformiad presennol yr ysgol yn rhy hael. Maent wedi rhoi gormod o bwyslais ar ganlyniadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol un flwyddyn i farnu p'un a yw addysgu a dysgu yn yr ysgol o safon briodol. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi bod grwpiau blwyddyn a phynciau lle nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, wrth i ddisgyblion fynd trwy'r ysgol. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn cyflawni nac yn gwneud cynnydd cystal ag y dylent.

Nid yw arweinwyr yn cynnal arsylwadau gwersi nac yn craffu ar waith disgyblion yn rheolaidd. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn cael gwybodaeth ddigon dibynadwy am ansawdd yr addysgu a'r dysgu i gael golwg gywir ar berfformiad yr ysgol. Nid yw arweinwyr yn cynnwys digon o staff a llywodraethwyr yn y broses hunanarfarnu.

Nid oes system drylwyr ar waith i sicrhau bod yr asesiadau a wna athrawon am lefel gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gywir. Nid yw cynlluniau gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n ddigon clir ar godi safonau cyflawniad disgyblion. Mae graddfeydd amser yn y cynlluniau yn rhy hir a chamau gweithredu yn rhy generig i ysgogi'r gwelliannau angenrheidiol. Nid yw arweinwyr yn monitro rhoi'r cynlluniau ar waith yn drylwyr nac yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol wedi darparu adeilad ar gyfer cylch chwarae ar ei safle yn ddiweddar. Mae'r bartneriaeth hon yn dechrau cael effaith dda ar godi niferoedd y disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol. Mae'n helpu staff i ddeall anghenion disgyblion yn gynnar ac i gefnogi eu dechreuad yn yr ysgol yn llwyddiannus yn well.

Mae gan yr ysgol berthynas dda â rhieni. Mae'n darparu cyrsiau effeithiol i helpu rhieni i ddeall y technegau a ddefnyddir yn yr ysgol i ddatblygu siarad a darllen disgyblion, er mwyn i rieni allu cefnogi dysgu eu plentyn yn effeithiol gartref.

Mae cysylltiadau â'r ysgol uwchradd leol wedi cynyddu'r cyfle i ddisgyblion fanteisio ar wersi cerddoriaeth. Mae cyflogwyr lleol wedi cefnogi cynlluniau darllen a siarad yn effeithiol. Mae hyn wedi cyfoethogi'r cwricwlwm ar gyfer y disgyblion dan sylw. Mae cysylltiadau sefydledig gyda'r heddlu wedi darparu testunau diddorol a difyr y mae

athrawon wedi'u defnyddio'n dda i annog disgyblion i ddysgu ac ysgrifennu am sut i aros yn ddiogel. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn cynnal digwyddiadau llwyddiannus yn ystod y flwyddyn i godi arian i wella offer ac adnoddau'r ysgol. Mae cyllid gan fanc wedi helpu'r ysgol i adnewyddu offer cyfrifiadurol sydd wedi dyddio i gefnogi dysgu disgyblion mewn TGCh.

Fodd bynnag, mae partneriaethau i sicrhau bod cyfnod pontio disgyblion i ysgolion uwchradd yn effeithiol yn gyfyngedig. Nid yw'r ysgol wedi cyfarfod â'r clwstwr cyfnod allweddol 2 o ysgolion dros y 18 mis diwethaf i safoni cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae hyn wedi cael effaith ar bennu deilliannau disgyblion mewn modd dibynadwy ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Nid yw uwch arweinwyr yn rheoli datblygiad proffesiynol athrawon a chynorthwywyr addysgu yn dda.

Gan nad yw cyflawniad disgyblion a pherfformiad staff yn cael eu monitro, nid yw staff yn cael adborth ar ansawdd y dysgu na'r addysgu sy'n digwydd. Nid oes gan yr ysgol ddiwylliant o arsylwi cymheiriaid nac o rannu arfer effeithiol. Nid yw'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol a gaiff staff yn cysylltu'n ddigon agos â chynllun gwella'r ysgol na'u rolau a'u cyfrifoldebau. O ganlyniad, nid yw rhai aelodau o staff wedi cael unrhyw ddatblygiad proffesiynol am gyfnodau estynedig. Nid yw'r datblygiad proffesiynol a gaiff staff yn cynrychioli gwerth da am arian. Nid yw arweinwyr yn defnyddio staff yn ddigon da. Mewn rhai achosion, mae cynorthwywyr addysgu yn addysgu grwpiau mawr o ddisgyblion yn rheolaidd ac nid yw arweinwyr yn monitro'r sesiynau hyn yn ddigon da i wybod beth yw effaith hyn ar gynnydd disgyblion.

Nid yw'r gyllideb bob amser yn cael ei thargedu'n ddigon effeithiol i ysgogi gwelliannau. Nid yw disgyblion yn gallu manteisio digon ar adnoddau bob amser, fel rhyngrwyd yr ysgol, i gefnogi eu dysgu. Nid yw'r corff llywodraethol yn gweld cynigion y gyllideb yn ddigon cynnar yn y broses ar gyfer pennu'r gyllideb. O ganlyniad, nid yw'n adolygu nac yn monitro'r gyllideb a ddyrennir yn effeithiol.

Yn sgil y cynnydd anfoddhaol a wna llawer o ddisgyblion, ansawdd gwael systemau sicrhau ansawdd yr ysgol a'r cynnydd gwael a wnaed o ran yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf, mae'r ysgol yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae data ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ar gael am ddwy flynedd yn unig.  Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn dangos gwelliant sylweddol ar y lefel ddisgwyliedig yn 2013, ac mae deilliannau'n codi i fod yn agos at y meincnodau ar gyfer y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae deilliannau disgyblion ar y deilliant 5 disgwyliedig yn dangos bod yr ysgol yn y 50% uchaf mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol.  Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi aros yn y 25% isaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles a datblygiad diwylliannol.  O gymharu â meincnodau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru, mae deilliannau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn agos at y cymaryddion mewn llythrennedd, iaith a chyfathrebu, tra bod datblygiad mathemategol ychydig uwchlaw'r cymaryddion.  Fodd bynnag, mae datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ychydig islaw'r cymaryddion.

Bu gwelliant mewn deilliannau yng nghyflawniadau disgyblion ar y deilliant 6 uwch yn 2013.  O gymharu â meincnodau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru, mae cyflawniad disgyblion mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles a datblygiad diwylliannol yn cymharu'n ffafriol, neu maent uwchlaw neu ymhell uwchlaw'r meincnodau.  O gymharu ag ysgolion tebyg ar y deilliant uwch mewn iaith, llythrennedd, cyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, mae'r ysgol yn y 50% uchaf.

Mae cyflawniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefelau disgwyliedig ac uwch wedi dangos tuedd amrywiol dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae deilliannau islaw'r holl gymaryddion ar y cyfan.  Yn 2013, o gymharu â meincnodau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru, mae deilliannau disgyblion mewn Saesneg wedi aros islaw'r cymaryddion.  Mae deilliannau mewn llafaredd ac ysgrifennu wedi gwella, ond maent yn parhau i fod islaw'r meincnodau o gymharu â chyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.  Mae darllen ar y lefel ddisgwyliedig wedi gwella ac mae'n agos at gymaryddion y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru erbyn hyn.  Fodd bynnag, mae cyflawniad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg yn dangos ychydig iawn o welliant ers yr arolygiad diwethaf ac mae'r ysgol yn parhau i fod yn y 50% is o ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, roedd cyflawniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg islaw cyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan.  Fodd bynnag, roedd cyrhaeddiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn gwyddoniaeth yn agos at y meincnodau.  Roedd cyrhaeddiad disgyblion ar y lefel uwch mewn mathemateg ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu, tra roedd cyrhaeddiad disgyblion ar y lefel uwch mewn gwyddoniaeth yn agos at y cyfartaleddau ar gyfer y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.  O gymharu ag ysgolion tebyg, mae cyflawniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf.

At ei gilydd, mae disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n well na'r disgyblion hynny nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch, mae bechgyn a merched yn cyflawni cystal â'i gilydd mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae bechgyn yn cyflawni'n well na merched ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch mewn mathemateg ac ar y lefel ddisgwyliedig mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn ar y lefel uwch mewn Saesneg.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid – ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 57 | 57<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 57 | 54<br>95% | 3<br>5% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 57 | 57<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 56 | 55<br>98% | 1<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 56 | 53<br>95% | 3<br>5% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 55 | 51<br>93% | 4<br>7% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 57 | 57<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 57 | 56<br>98% | 1<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 57 | 52<br>91% | 5<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 55 | 49<br>89% | 6<br>11% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 50 | 33<br>66% | 17<br>34% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 78% | 22% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 54 | 39<br>72% | 15<br>28% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Responses to parent questionnaires

denotes the benchmark - this is a total of all responses since September 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 20 | 14<br>70% | 5<br>25% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 20 | 15<br>75% | 4<br>20% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 19 | 15<br>79% | 4<br>21% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 19 | 14<br>74% | 5<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 20 | 11<br>55% | 6<br>30% | 0<br>0% | 1<br>5% | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 20 | 11<br>55% | 7<br>35% | 1<br>5% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 20 | 13<br>65% | 6<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 20 | 8<br>40% | 8<br>40% | 1<br>5% | 0<br>0% | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 20 | 13<br>65% | 4<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 20 | 12<br>60% | 7<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 18 | 11<br>61% | 7<br>39% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 18 | 10<br>56% | 6<br>33% | 0<br>0% | 1<br>6% | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 20 | 11<br>55% | 8<br>40% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 20 | 13<br>65% | 7<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 20 | 8<br>40% | 9<br>45% | 1<br>5% | 1<br>5% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 20 | 10<br>50% | 7<br>35% | 1<br>5% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 18 | 8<br>44% | 6<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 20 | 7<br>35% | 11<br>55% | 1<br>5% | 1<br>5% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 18 | 11<br>61% | 7<br>39% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Penny Lewis | Arolygydd Cofnodol |
| Rebecca Lawton | Arolygydd Tîm |
| James Jones | Arolygydd Lleyg |
| Susan O'Halloran | Arolygydd Cymheiriaid |
| Adele Warner | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.